

Ionawr 2020

Annwyl Aelod

Anghydfod Diwydiannol Cenedlaethol NASUWT gyda Llywodraeth Cymru – Y DIWEDDARAF

Ysgrifennais atoch ym mis Tachwedd 2019 (www.nasuwt.org.uk/walesmembersletternovember2019welsh) i roi gwybod i chi am y sylwadau yr oedd NASUWT wedi eu cyflwyno i Kirsty Williams, Gweinidog Addysg Cymru, am y materion hynny yr oedd aelodau wedi eu henwi fel eu pryderon pennaf ynghylch eu swyddi, sef llwyth gwaith, diffyg disgyblaeth gan ddisgyblion a chyflogau.

Dywedodd NASUWT wrth y Gweinidog bod pryderon mawr, yn arbennig am y canlynol:

- y ffordd y mae Llywodraeth Cymru'n ymdrin â'r argymhellion a gafwyd yn yr adolygiad 'Addysgu: Proffesiwn gwerthfawr';
- effaith y diwygiad i'r cwricwlwm ar gyflogau ac amodau gwaith athrawon, gan gynnwys y posibilrwydd y bydd cyflwyno'r cwricwlwm newydd yn ychwanegu at lwyth gwaith yr athrawon sy'n ormodol yn barod ac hefyd at sefyllfa lle mae athrawon yn colli swyddi ac yn gweld toriad yn eu cyflogau, wrth i ysgolion ailstrwythuro i baratoi ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd;
- effaith diffyg disgyblaeth gan ddisgyblion ar athrawon, gan gynnwys y ffaith bod athrawon yn wynebu cam-drin llafar neu gorfforol yn rheolaidd, ynghyd â'r diwylliant o roi'r bai ar yr athrawon sy'n digwydd mewn gormod o ysgolion mewn ymateb i ymddygiad annerbyniol gan ddisgyblion, a'r effaith niweidiol y mae hyn yn ei gael ar les ac iechyd corfforol a meddwl athrawon;
- yr ymateb hynod siomedig a gafwyd gan Lywodraeth Cymru i flwyddyn gyntaf gwaith y Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol i Gymru, gan gynnwys methu â pharchu argymhellion y Corff Adolygu nac ymatebion NASUWT i'r ymgynghoriad.

Roedd ymateb y Gweinidog i'r problemau hyn yn annerbyniol ac, ym marn NASUWT, roedd yn ddirmygus o bryderon go iawn yr athrawon.

Nid oedd y Gweinidog wedi ymdrin yn ddifrifol ag unrhyw un o'r materion a godwyd. Y cwbl a wnaeth oedd nodi'r problemau sy'n ymwneud â diffyg disgyblaeth gan ddisgyblion. O ystyried hynny, dywedwyd wrth yr aelodau bod NASUWT yn teimlo nad oedd unrhyw ddewis ond cofnodi anghydfod diwydiannol cenedlaethol ffurfiol gyda'r Gweinidog am gyflogau ac amodau gwaith, yn ogystal ag arferion rheoli gwrthwynebus yn ymwneud yn benodol â llwyth gwaith a'r methiant i reoli diffyg disgyblaeth gan ddisgyblion.

Ar 4 Tachwedd 2019, cofnodwyd yr anghydfod a gofynnwyd am gyfarfod gyda'r Gweinidog i geisio datrys yr anghydfod.

Cyfarfod gyda'r Gweinidog am yr Anghydfod Diwydiannol Cenedlaethol

Cynhaliwyd y cyfarfod gyda'r Gweinidog ar Ragfyr 4.

Yn anffodus, parhaodd y Gweinidog i fethu ag ymrwymo ynghylch y materion sy'n achosi pryder a godwyd gan gynrychiolwyr NASUWT.

Ni chafwyd unrhyw gynnydd yn ystod y trafodaethau. Wrth i'r cyfarfod ddirwyn i ben, gofynnodd cynrychiolwyr NASUWT a oedd y Gweinidog yn barod i roi cyfle i NASUWT gyfarfod â swyddogion Llywodraeth Cymru i drafod awgrymiadau ymarferol NASUWT ynglŷn â ffyrdd o ddatrys y materion hyn sy'n achosi pryder i athrawon. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n gadael i ni wybod.

Ar Ragfyr 16, ysgrifennodd NASUWT at y Gweinidog i holi ynghylch eu cais am gyfarfod, gan ailadrodd y pryderon a godwyd gan yr Undeb yn y cyfarfod gyda'r Gweinidog.

Ar Ragfyr 19, ymatebodd y Gweinidog ac, unwaith eto, methodd fynd i'r afael â'n pryderon.

Symud tuag at gynnal pleidlais yr aelodau ar weithredu diwydiannol

Mae eich Aelodau i Gymru ar y Bwrdd Gweithredol Cenedlaethol a Phwyllgor Gweithredu Cenedlaethol NASUWT wedi adolygu methiant y Gweinidog i ymgysylltu ar y materion pwysig hyn. Maent yn teimlo nad oes unrhyw ddewis erbyn hyn ond symud tuag at gynnal pleidlais genedlaethol ymysg yr aelodau ledled Cymru ynglŷn â symud yr anghydfod yn ei flaen, a galluogi i'r Undeb drefnu gweithredu diwydiannol a fydd yn grymuso ein haelodau i ddangos eu gwrthwynebiad, yn eu gweithleoedd, i'r arferion rheoli gwrthwynebus sy'n achosi llwyth gwaith gormodol, problemau gyda diffyg disgyblaeth gan ddisgyblion, ac anghydraddoldeb cyflog.

Gwelwch 'Y Camau Nesaf' dros y dudalen.

Yr undeb athrawon mwyaf yng Nghymru

Y CAMAU NESAF

1. Bydd yr aelodau a'r cynrychiolwyr/cysylltiadau yn y gweithle'n derbyn gwahoddiadau i sesiynau briffio ar yr Anghydfod Diwydiannol Cenedlaethol ac i drafod cynlluniau i gynnal y bleidlais ar weithredu diwydiannol. Byddwn yn cynnal y sesiynau briffio ar hyd a lled Cymru felly gwnewch bob ymdrech i fynd i'r un sy'n fwyaf lleol i chi os gwelwch yn dda.
2. Yn rhan o'n gwaith o baratoi ar gyfer y bleidlais, gofynnir i'r aelodau gwblhau arolwg barn byr, naill ai ar-lein neu drwy lawrlwytho'r ffurflen o'r wefan ar: www.nasuwt.org.uk/nasuwtcymrupoll2020.
3. Bydd NASUWT yn parhau i bwysu am gyfarfod gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i gyflwyno ein cynigion ar gyfer mynd i'r afael â phryderon yr athrawon a byddwn hefyd yn lobio Aelodau'r Cynulliad ynghylch yr ymateb annerbyniol a gafwyd gan y Gweinidog i anghydfod diwydiannol cenedlaethol a gofnodwyd gan yr undeb athrawon mwyaf yng Nghymru.
4. Mae **LLINELL FFÔN DIFFYG DISGYBLAETH DISGYBLION** yn cael ei lansio hefyd i athrawon yng Nghymru, ac mae manylion isod.

Dymuniadau gorau



Chris Keates (Ms)

Ysgrifennydd Cyffredinol (Dros Dro)

LLINELL FFÔN DIFFYG DISGYBLAETH DISGYBLION YN AGOR I ATHRAWON LEDLED CYMRU

Gall bob aelod helpu i wthio ein hanghydfod cenedlaethol gyda Llywodraeth Cymru yn ei flaen, yn arbennig mewn perthynas â mynd i'r afael â diffyg disgyblaeth gan ddisgyblion, drwy ddefnyddio ein llinell ffôn bwrpasol a fydd yn agor ar ddydd **Dydd Gwener 31 Ionawr 2020**.

I gasglu rhagor o dystiolaeth am raddfa'r broblem yn ymwneud â diffyg disgyblaeth gan ddisgyblion, sef un o'r pryderon pennaf sydd gan athrawon ynghylch eu swyddi, gall unrhyw athro neu athrawes yng Nghymru ddefnyddio'r llinell ffôn i:

- roi gwybod mewn neges destun neu neges llais am ddigwyddiadau y maen nhw wedi eu gweld neu wedi cael profiad ohonynt;
- fynegi eu barn am ddiffyg disgyblaeth gan ddisgyblion a phethau fel polisïau ymddygiad adferol er enghraifft; a
- dweud a ydyn nhw wedi gweld neu gael profiad o ymddygiadau, er enghraifft, lle mae'r athrawon yn hytrach na'r disgyblion wedi derbyn y bai am ddiffyg disgyblaeth gan ddisgyblion, a ydyn nhw'n teimlo eu bod nhw'n derbyn cefnogaeth pan gânt broblemau gyda disgyblion, neu sut mae problemau'n cael eu trin pan fydd yr athrawon yn rhoi gwybod amdany'n nhw.

Gallwch roi gwybod am brofiadau'n ddiennw drwy adael neges llais ar 029 2054 6099 neu anfon neges destun at 07860 017657.

Mae gan bob athro ac athrawes yr hawl i weithio mewn amgylchedd diogel heb unrhyw drais na tharfu ar wersi, p'un a ydyn nhw'n gweithio mewn ysgol brif ffrwd neu sefydliad arbenigol.

Os byddwn ni'n casglu tystiolaeth ar y llinell ffôn sy'n dangos nad yw athrawon yn derbyn yr hawl hwnnw, byddwn yn gallu dangos graddfa'r arferion annerbyniol hyn i Lywodraeth Cymru a dangos bod angen i Weinidogion gymryd camau i ymdrin â'r rheolaeth aneffeithiol ar ddiffyg disgyblaeth gan ddisgyblion.

Anogwch gymaint o athrawon ag y gallwch i ddefnyddio'r llinell ffôn os gwelwch yn dda.

Nodwch nad llinell gynghori yw'r llinell ffôn hon. Mae'n ffordd gyflym ac effeithiol o gasglu a rhoi gwybod am brofiadau.

Gall unrhyw aelodau o NASUWT a fyddai'n hoffi derbyn cymorth neu gefnogaeth gyda'r mater hwn neu unrhyw fater arall gysylltu â Chanolfan Genedlaethol NASUWT Cymru drwy ffonio 029 2054 6080 neu anfon e-bost at rc-wales-cymru@mail.nasuwt.org.uk. Mae pob cysylltiad yn gyfrinachol.